Ysbryd Glân, golomen nef

Caneuon Ffydd: Rhif 592

Ysbryd Glân, golomen nef,
gwrando'n rasol ar ein llef;
aethom yn wywedig iawn,
disgyn yn dy ddwyfol ddawn.

Oer ein serch, a gwan ein ffydd,
ein Hosanna'n ddistaw sydd;
tyred, tyred, Ysbryd Glân,
ennyn ynom nefol dân.

Er na haeddwn ni dy gael,
eto ti wyt Ysbryd hael;
tyred, tyred yn dy ras,
maedda'n hanghrediniaeth gas.

Ysbryd Glân, golomen nef,
cod ni ar dy adain gref;
nes yr awn ni uwch y byd
mewn sancteiddiol, nefol fryd.

ROGER EDWARDS, 1811–86

MYFYRDOD

Mae'n debyg nad yw cyflwr dyn yn newid o oes i oes, ac fe welwn ni Roger Edwards, Yr Wyddgrug, yn galaru yn ei gyfnod ef ei hun fod pobl Dduw wedi mynd 'yn wywedig iawn'. Dyma gyfnod yr ydym ni heddiw yn ei gysylltu â thwf mawr Anghydffurfiaeth ac y gwelwyd amlhau capeli gyda rhai newydd yn cael eu codi bob wythnos. Erbyn heddiw, fe dynnir capeli i lawr neu werthu rhai bob wythnos yng Nghymru. Eto i gyd, mae'n debygol iawn i Roger Edwards yntau weld sêl pobl yn oeri wrth i grefydd gael ei chyfundrefnu a'i ffurfioli. Yn sicr, fe welodd Daniel Owen, a dderbyniodd gymaint o anogaeth ac arweiniad gan Roger Edwards, elfennau dieithr iawn yn bygwth crefydd y galon, ac fe gododd ei

lais yn erbyn pob balchder a rhagrith ac anghyfiawnder a oedd erbyn ei gyfnod ef wedi treiddio i fywyd yr Eglwys.

Cyferchir yr Ysbryd Glân yn uniongyrchol yn yr emyn, ac felly y dylid ei gyfarch, oherwydd y mae'n gymaint rhan o'r Drindod ag yw'r Tad a'r Mab, ac yn berson gyda chymeriad a phriodoleddau a theimladau fel y Tad a'r Mab. Eir ati i'w bersonoli ymhellach trwy ei alw'n 'golomen nef' a chofio am yr achlysur hwnnw pryd yr oedd yr Ysbryd Glân i'w weld fel colomen ar adeg bedydd Iesu Grist yn Iorddonen (Mth. 3:13–17).

Wrth ddarllen trwy hanes Ebenezer Richard, Tregaron (tad Henry Richard – 'apostol heddwch'), fe geir ei fod ef yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gofidio am yr hyn a welai ac am gyflwr Cristnogaeth yn ein gwlad. Cwynai am ddiffyg dirnadaeth y bobl o bethau ysbrydol, ac wrth roi cyngor i bregethwyr fe ddywed beth fel hyn: 'Nid ein cydmaru ein hunain a ddylem â chrefyddwyr ein hoes ni – oes o grefyddwyr gwael yw ein hoes ni – ond mesur ein hunain wrth esiamplau gair Duw, "mesur y cysegr".' Yr oedd ei ofid yn real iawn, a'i lafur dros ei Arglwydd yn adlewyrchu'r pryder yn ei galon dros Eglwys Iesu Grist ar y ddaear ac yn gwbl ddiflino.

Er cystal llewyrch oedd ar Gristnogaeth yng Nghymru yng nghanol y cyfnod y gallwn ni gyfeirio ato fel 'canrif fawr' o ran emynyddiaeth, gan mai dyma'r cyfnod y cyfansoddwyd trwch ein hemynau, mae'n amlwg na welai pobl Dduw eu cyfnod eu hunain fel 'oes aur' o gwbl. Roedden nhw'n gofidio am gyflwr gwael yr Eglwys, am eu bod yn gwybod mai sefydliad o ddwyfol osodiad yw hi, ac yn erfyn ar i Dduw anfon 'colomen nef' oherwydd iddynt fynd 'yn wywedig iawn'; gwybod yr oedden nhw fod yr Eglwys yn gwbl ddibynnol ar bresenoldeb Duw trwy ei Ysbryd Glân.

Cymaint mwy anfodlon y dylem ni fod, cymaint mwy y dylem ni ymofidio am gyflwr Eglwys Iesu Grist yn ein plith heddiw, cymaint mwy y dylem ni weithio ac erfyn ar i Dduw 'ennyn ynom nefol dân' gan mor 'oer ein serch, a gwan ein ffydd'.

GWEDDI

Golomen nef ac Ysbryd Duw ei hun, y mae gofid yn ein calonnau ninnau hefyd am gyflwr Eglwys Iesu Grist yn ein plith. Bydded inni gael ein cymell i weddïo ac i ti'n cynorthwyo yn ein gweddïo er mwyn gweld y nefol dân sydd ei angen arnom yn disgyn yma ar y rhai gwywedig. Er mwyn Iesu ac er gogoneddu ei enw. Amen.